

Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Sir Fynwy

Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Sir Fynwy i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Sir Fynwy 11 o'r hawliau craidd yn llawn ac 1 yn rhannol.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Sir Fynwy 4 yn llawn a methodd â chyflawni 5.

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Fynwy wedi gweld llawer o newidiadau yn ystod tair blynedd y fframwaith presennol. Mae hyn yn sicr wedi cael effaith ar rai agweddau ar y gwasanaeth ac fe'i hadlewyrchir hefyd yn lefelau perfformiad gwasanaethau llyfrgelloedd eraill ledled Cymru. Mae nifer y staff proffesiynol yn destun siom ac mae mewnbwn proffesiynol, fel y nodwyd yn 2017/18, yn parhau'n bwysig. Mae'r model canolfan gymunedol yn amlwg yn llwyddiant, gyda chynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Mae'r pwysigrwydd cynyddol a roddir i wasanaethau ac adnoddau plant hefyd yn gadarnhaol iawn. Mae agor hyb newydd y Fenni, ochr yn ochr â chyhoeddi Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd, yn ddatblygiadau pwysig a dylent wneud cyfraniad cadarnhaol at gynaliadwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol agos, yn ogystal â gwella perfformiad.

- Mae Sir Fynwy wedi cyflawni 11 o'r Hawliau Craidd yn llawn ac un yn rhannol. Oherwydd Covid-19 ni chynhaliwyd yr arolwg o gwsmeriaid y bwriadwyd ei gynnal ym mis Mawrth.
- Mae llyfrgelloedd yn Sir Fynwy yn parhau i gyfrannu'n effeithiol at iechyd a lles yn y gymuned.
- Mae cyfanswm y ffigurau ymwelwyr wedi cynyddu 4% er 2017/18. Mae nifer yr aelodau o lyfrgell hefyd wedi cynyddu, gan osod Sir Fynwy yn y chwarter uchaf yng Nghymru yn y meysydd hyn. Er hyn, mae meysydd defnydd eraill wedi gostwng.
- Mae Sir Fynwy wedi methu â chyflawni'r targed ar gyfer darpariaeth Gymraeg, ac mae hefyd wedi methu â chyflawni unrhyw un o'r targedau staffio.
- Mae Sir Fynwy yn un o 7 gwasanaeth sydd ddim yn cyflawni'r targed oriau agor (DA 16). Mae'r oriau agor blynyddol cyfanredol wedi gostwng 9% er 2017/18.

2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Mae'r asesiad wedi'i gyfyngu i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylwadau ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol

yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd sydd wedi'u cyflawni'n rhannol/heb eu cyflawni.

2.1 Hawliau craidd

Mae Sir Fynwy wedi cyflawni 11 o'r Hawliau Craidd yn llawn, ac mae'n cyflawni un yn rhannol. Ar gyfer 2019/20, methodd â chyflawni'n llawn y gofyniad i gynnal arolwg defnyddwyr llawn unwaith yn ystod y fframwaith tair blynedd. Roedd ail ran yr arolwg oedolion i fod i gael ei gynnal ym mis Mawrth, ond cafodd ei ganslo oherwydd Covid-19. Roedd wedi cynnal ei arolwg plant yn 2018. Erbyn hyn, fodd bynnag, mae wedi cyflawni un Hawl Graidd arall gan fod Datganiad Llyfrgell wedi'i lunio erbyn hyn, ac mae i'w weld ar wefan Sir Fynwy. Roedd y sylwadau'n egluro sut y mae'r model hyb cymunedol yn Sir Fynwy yn galluogi llyfrgelloedd i gysylltu â nifer o wahanol unigolion a darparu gwasanaethau amrywiol ar gyfer gwahanol anghenion.

2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Sir Fynwy yn cyflawni 4 ohonynt yn llawn a yn methu â chyflawni 5 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	X	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	X	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	X	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Heb ei gyflawni
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	X	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	X	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Heb ei gyflawni
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	X	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	X	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Heb ei gyflawni
i) Staff fesul pen y boblogaeth	X	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	X	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	X	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	X	Heb ei gyflawni

Mae perfformiad Sir Fynwy wedi gostwng drwy gydol y fframwaith ar gyfer y dangosyddion ansawdd hynny lle mae'n bosibl gwneud cymariaethau uniongyrchol. Mae'r dangosyddion a effeithiwyd yn 2019/20 yn cynnwys chyflenwi ceisiadau (DA 12) sy'n is na'r targed erbyn hyn.

2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Sir Fynwy ei arolwg defnyddwyr sy'n oedolion yn rhannol ym mis Hydref 2019. Bwriedid cynnal ail ran yr arolwg oedolion ym mis Mawrth 2020, ond cafodd ei ganslo oherwydd Covid-19. Cynhaliwyd yr arolwg plant diwethaf ym mis Hydref 2018.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	90%	=11/19	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	78%	=16/19	41%	85%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Fynwy dair astudiaeth achos o'r fath:

- Lles meddyliol – effaith y llyfrgell ar ymwelydd rheolaidd. Mae unigolyn yn disgrifio pwysigrwydd Hyb Cymunedol Sir Fynwy i'r gymuned leol ac iddi hi. Mae'r dystiolaeth a roddwyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd yr amrywiaeth eang o adnoddau cyfredol sydd ar gael, ynghyd â'r budd cymdeithasol a ddarperir gan grwpiau fel y grŵp gwau a chlonc. Pwysleisir yr effaith gadarnhaol ar les meddyliol y gymuned.
- Llythrennedd – pwysigrwydd effaith llyfrgelloedd ar lythrennedd plant a phobl ifanc. Mae tystiolaeth gan nifer o unigolion yn tynnu sylw at bwysigrwydd grwpiau plant, er enghraifft amser rhigymau babanod, Bookstart a sesiynau amser stori ar ddatblygiad llythrennedd. Mae'r grwpiau hyn yn cyfoethogi bywydau plant yn Sir Fynwy.
- Calon y Gymuned – Mae adborth gan nifer o unigolion yn dangos pwysigrwydd y llyfrgelloedd yn eu bywydau. Mae hyn yn cynnwys dosbarthiadau addysg oedolion, digwyddiadau, cyfleusterau da a staff gwybodus. Mae'r ffactorau hyn yn dangos sut y mae'r llyfrgell yn ganolbwynt cynnes, croesawus a chanolog i'r gymuned.

2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Sir Fynwy ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19	
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6]	
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	59%	16/18	25%	75%	94%	dd/b
c) iechyd a lles	59%	12/19	38%	69%	96%	dd/b
d) lle diogel a chroesawgar	93%	17/19	90%	96%	100%	dd/b
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]	
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b		78%	91%	99%	dd/b
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b		88%	97%	100%	dd/b
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b		66%	86%	99%	dd/b
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	dd/b		85%	96%	100%	dd/b
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.4	=3/19	8.0	9.1	9.5	9.4
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell ¹						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,742*	4/22	2429	3987	6874	4,645
b) rhith-ymweliadau fesul pen	484	16/22	239	909	2131	395
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	126	15/22	78	145	244	150
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen ²	333	21/22	311	680	1468	326
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	8	13/22	4	9	14	10
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	21%	=16/22	14%	30%	64%	22%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£23,333	1/22	£7,260	£12,448	£23,333	£15,525
b) % ar staff	52%	19/22	48%	61%	76%	73%
% ar adnoddau gwybodaeth	5%	22/22	5%	13%	22%	11%
% ar offer ac adeiladau	8%	5/22	0%	8%	28%	3%
% ar gostau gweithredol eraill	35%	=1/22	1%	18%	35%	13%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£13,027	1/22	£0	£1,567	£13,027	£43
DA 16 – Oriau agor ³						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	3.91%	20/22	0.00%	1.07%	5.41%	4.38%

¹ rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; ² fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; ³ Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)ⁱ

Cynhaliodd Sir Fynwy ran gyntaf ei arolwg oedolion ym mis Hydref 2019, a chafodd ail ran yr arolwg ei ganslo oherwydd effaith Covid-19. Cynhaliwyd yr arolwg plant diwethaf ym mis Hydref 2018. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr oedolion sydd wedi dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer iechyd a llesiant yn y llyfrgell. Parhaodd pob llyfrgell sefydlog i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant. Yn ychwanegol at hyn, ar y cyd â Chymdeithas Dai Sir Fynwy, sefydlwyd grŵp darllen wythnosol newydd mewn lleoliad llety gwarchod. Mae llyfrgelloedd yn Sir Fynwy yn parhau i gyfrannu'n effeithiol at iechyd a llesiant yn y gymuned.

3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)ⁱⁱ

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae defnydd wedi cynyddu mewn rhai meysydd. Mae cyfanswm y ffigyrau ymwelwyr wedi cynyddu 4% er 2017/18, yn bennaf o ganlyniad i gyfleusterau Hyb Cymunedol a rennir, a gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer yr aelodau o lyfrgell, sy'n gosod Sir Fynwy yn y chwarter uchel yng Nghymru yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad o 11% mewn benthyciadau llyfrau oedolion er 2017/18, ac mae ffigurau Sir Fynwy yn is na'r canolrif yng Nghymru. Ar y llaw arall, mae lawrlwythiadau electronig wedi cynyddu 141% er 2017/18, yn unol â'r patrwm cyffredinol yn y rhan fwyaf o wasanaethau llyfrgell Cymru.

3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)ⁱⁱⁱ

Mae Sir Fynwy yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Gwelwyd gostyngiad yn y gwariant ar ddeunyddiau er 2018/19, ac mae gwariant fesul pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif yng Nghymru. Mae hyn er bod ganddo'r gwariant refeniw uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Yn anffodus, mae benthyciadau llyfrau oedolion a phlant wedi gostwng eleni. Mae gwariant ar adnoddau Cymraeg wedi gostwng er 2018/19, a'r perfformiad yn y maes hwn yw'r un isaf yng Nghymru unwaith eto. Nodir hefyd bod Covid-19 wedi effeithio ar brynu ac ychwanegu at y stoc Gymraeg ym mis Mawrth 2020. Mae'n braf gweld bod benthyciadau Cymraeg wedi cynyddu 118% er 2017/18. Gwelwyd gostyngiad yn y ddarpariaeth cyfrifiaduron personol, er bod defnydd at ei gilydd wedi aros yr un fath er 2018/19. Nid yw'r gwasanaeth yn cyflawni'r targed ar gyfer cyflenwi ceisiadau erbyn hyn, ond mae'r pandemig unwaith eto wedi'i nodi fel ffactor posibl yn yr achos hwn.

3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)^{iv}

Mae'r lefelau staffio cyffredinol wedi gostwng yn sylweddol er 2017/18, ac mae 43% yn llai o staff ers blwyddyn gyntaf y chweched fframwaith. Er hyn, mae cyfanswm y staff fesul pen o'r boblogaeth yn parhau ychydig yn uwch na'r canolrif yng Nghymru. Dylid nodi bod

gan y gwasanaeth un swydd wag ar hyn o bryd. Nid yw'r lefelau staffio proffesiynol wedi newid ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf. Sir Fynwy yw'r unig wasanaeth yng Nghymru o hyd lle nad oes gan Bennaeth y gwasanaeth gymhwyster perthnasol mewn llyfrgellyddiaeth.

Gwariant refeniw Sir Fynwy fesul pen o'r boblogaeth yw'r uchaf yng Nghymru erbyn hyn, ond mae'n bosibl bod y model Hyb Cymunedol a rennir yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn. Er mai Sir Fynwy sydd â'r gwariant uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, mae ei wariant ar ddeunyddiau yn is nag unrhyw awdurdod arall yng Nghymru. Mae Sir Fynwy yn un o 7 gwasanaeth nad ydynt yn cyflawni'r targed oriau agor (DA 16). Mae oriau agor cyfanredol wedi gostwng 9% er 2017/18. Mae nifer y dosbarthiadau i'r cartref a fethwyd wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac erbyn hyn dim ond cwta 4% o'r dosbarthiadau i'r cartref a fethwyd yn ystod y flwyddyn oherwydd problemau mecanyddol. Dylai'r cerbyd newydd a brynwyd ym mis Medi 2019 wella'r ffigur hwn mewn datganiadau yn y dyfodol.

4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae Sir Fynwy yn nodi bod y blaenoriaethau'n cynnwys llythrennedd, iechyd a llesiant, cynhwysiant digidol a chydlyniant cymunedol. Mae'r naratif yn tynnu sylw at wasanaethau fel Her Darllen yr Haf, Darllen yn Well ar gyfer dementia a'r gwasanaeth danfon i'r cartref. Mae gwasanaethau fel y rhain yn cyfrannu tuag at gydlyniant cymunedol, ac maent yn gydnaws â nodau llesiant Llywodraeth Cymru. Mae Sir Fynwy hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar annog creadigrwydd drwy ddiwylliant. Mae'r model hyb cymunedol yn darparu nifer o gyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn y maes hwn, a thrwy hynny'n helpu i greu Cymru sydd â diwylliant bywiog.

5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, nodir bod y weledigaeth ehangach ar gyfer y gwasanaeth wedi'i hamlinellu yn Strategaeth y Gwasanaeth Llyfrgell (2019-22), sydd wedi'i chyhoeddi erbyn hyn. Mae meysydd iechyd a llesiant, dysgu gydol oes a diwylliant a chreadigrwydd yn parhau'n ganolog i ddarpariaeth Sir Fynwy. O ganlyniad i Covid-19 bydd y prif flaenoriaethau wrth i Sir Fynwy symud tuag adferiad yn cynnwys hybu a datblygu gwasanaethau digidol, sy'n flaenoriaeth i bob gwasanaeth yng Nghymru, ynghyd ag ad-drefnu'r gwasanaeth danfon i'r cartref er mwyn cynnig gwasanaeth diogel a hyblyg i bobl hŷn sy'n agored i niwed. Bydd pwyslais hefyd ar gefnogi staff er mwyn sicrhau bod ganddynt y sgiliau sydd eu hangen i gyflawni heriau newydd. Fel pob gwasanaeth yng Nghymru, bydd angen ailwerthuso a sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn parhau i ddiwallu anghenion y gymuned.

6 Casgliad

Mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd Sir Fynwy wedi gweld llawer o newidiadau yn ystod tair blynedd y fframwaith presennol. Mae hyn yn sicr wedi cael effaith ar rai agweddau ar y gwasanaeth, ac adlewyrchir hynny yn y lefelau perfformiad mewn perthynas â gwasanaethau eraill yng Nghymru. Mae nifer y staff proffesiynol yn destun siom ac mae mewnbyn proffesiynol, fel y nodwyd yn 2017/18, yn parhau'n bwysig. Mae'r model

canolfan gymunedol yn amlwg yn llwyddiant, gyda chynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Mae'r pwysigrwydd cynyddol a roddir i wasanaethau ac adnoddau plant hefyd yn gadarnhaol iawn. Mae agor hyb newydd y Fenni, ochr yn ochr â chyhoeddi Strategaeth Gwasanaeth Llyfrgelloedd, yn ddatblygiadau pwysig a dylent wneud cyfraniad cadarnhaol at gynaliadwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol agos.

ⁱ Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

ⁱⁱ Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

ⁱⁱⁱ Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

^{iv} Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.